WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Ystadau – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 674A2016

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Cyflawnwyd y gwaith hwn gan Tom Haslam ac Urvisha Perez.

# Cynnwys

Mae’r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i wella’r drefn rheoli ystadau, ond byddai’n elwa o gyflwyno cynllun strategol i gyfarwyddo gweithgareddau.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

Mae’r dull strategol o reoli’r ystâd yn gwella, ond nid oes strategaeth gynhwysfawr i’w chael 8

Mae’r drefn rheoli perfformiad ac ymgysylltu â staff yn gwella ond nid oes gan y gwasanaeth adnoddau digonol o’i gymharu â maint a chyflwr yr ystâd 12

Atodiadau

Atodiad 1 – perfformiad dangosfwrdd ystadau GIG Cymru 21

Atodiad 2 – System TG yr ystâd – dadansoddiadau enghreifftiol 27

Atodiad 3 – Ymateb y Rheolwyr 31

# Adroddiad Cryno

## Cyflwyniad

1 Mae ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru (GIG Cymru) yn bodoli i helpu i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae adeiladau a seilwaith yn adnoddau gwerthfawr sy'n gallu cael effaith uniongyrchol ar berfformiad y gwasanaeth iechyd. Mae angen iddynt fod o fath, cyflwr a lleoliad priodol, ond gallant fod yn ddrud i'w rhedeg a'u cynnal.

2 Mae gan fyrddau iechyd ledled Cymru fel arfer ystâd eang gydag adeiladau niferus, sydd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol, ac sy'n amrywio o ran oedran a chyflwr. Mae dros 70% o ystâd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) dros 30 oed.

3 I gael trefn rheoli ystâd lwyddiannus, rhaid cael mewnbwn ac ymdrech gan fyrddau iechyd, ac mae'n cynnwys dau weithgaredd eang:

- **Rheolaeth strategol dros yr ystâd** – mae hyn yn bwysig ar gyfer gwneud penderfyniadau cadarn am ddefnydd presennol yr ystadau a'u datblygu i'r dyfodol. Dylai'r bwrdd, gyda chefnogaeth gweithwyr proffesiynol perthnasol, bennu pa ystâd sydd ei hangen ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, cymeradwyo cynlluniau i gyflawni hyn, a goruchwylio. Bydd Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) y Bwrdd Iechyd yn ddylanwad pwysig ar hyn. Heb ddull gweithredu strategol, mae perygl na fydd penderfyniadau ynglŷn â rheoli'r ystâd a datblygu gwasanaethau yn gydlynol. Mae hyn yn creu risg bellach y byddai buddsoddiad ariannol yn yr ystâd yn cael ei gamgyfeirio.
- **Rheolaeth weithredol dros yr ystâd** – mae hyn yn bwysig i sicrhau bod yr ystâd yn parhau i fod yn addas at y pwrpas o ddydd i ddydd, a bod gweithwyr proffesiynol yn gallu caffael, addasu, a gwaredu rhannau o'r ystâd fel sy'n ofynnol.

4 Dylai rheoli'r ystâd yn effeithiol ac effeithlon sicrhau gwerth am arian; er hynny, gall sylw annigonol i naill ai faterion strategol neu weithredol arwain at fod arian yn cael ei wastraffu ac weithiau gwasanaethau is na'r safon yn cael eu cyflenwi i ddefnyddwyr.

5 O fewn y Bwrdd Iechyd, y Bwrdd Gwasanaethau Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau (y Bwrdd Gwasanaethau) sy'n gyfrifol am reoli'r ystâd. Sefydlwyd y Bwrdd hwn ym mis Ebrill 2016 yn dilyn ad-drefnu. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau yn gyfrifol am reoli'r ystâd a'r cyfleusterau, cyfalaf dewisol a chydymffurfiaeth, cynllunio cyfalaf a gwasanaethau masnachol:

- mae'r tîm Ystadau a Chyfleusterau yn gyfrifol am reoli cyfleusterau meddal a chaled. Mae'r elfennau rheoli cyfleusterau caled yn cynnwys gwaith atgyweirio'r ystâd a rheoli offer (ac eithrio offer meddygol), ac mae rheoli cyfleusterau meddal yn golygu gwasanaethau fel arlwyo, porthora, glanhau a golchi dillad. Mae'r tîm wedi ei rannu yn ddaearyddol, i'r gogledd ac i'r de o'r A48.

- mae’r tîm Cyfalaf Dewisol a Chydymffurfiaeth yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni ei rwymedigaethau cydymffurfiaeth statudol megis rheoliadau diogelwch tân a diogelu yn erbyn legionela. Mae’r tîm hefyd yn gyfrifol am reoli gwaith cyfalaf a ariennir drwy arian cyfalaf dewisol.
- mae’r tîm Cynllunio Cyfalaf yn gyfrifol am oruchwylio gwaith cyfalaf mawr, er enghraifft adeiladu’r ysbyty plant newydd yn Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC) a’r uned iechyd meddwl newydd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau (YALl).
- mae’r tîm Gwasanaethau Masnachol yn gyfrifol am greu incwm o ystâd y Bwrdd Iechyd megis drwy brydlesu unedau masnachol yng nghynteddau ysbytai.

6 Ar gyfer 2015-16, roedd cyfanswm cyllideb gyfalaf y Bwrdd Iechyd yn ychydig dros £34.5 miliwn. Roedd y rhan fwyaf o’r cyfanswm (£24.5 miliwn) ar gyfer datblygiadau a nodwyd ac y cytunwyd arnynt drwy raglen gyfalaf Cymru gyfan, megis ailddatblygu unedau asesu ac achosion brys a damweiniau. Ar gyfer cynlluniau cyfalaf dewisol oedd y gweddill (£9.9 miliwn) megis rhaglenni adnewyddu, chydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch statudol, a rhoi sylw i waith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni. Telir am waith cynnal a chadw’r ystâd drwy gyllid refeniw, ac mae’r dyraniad blynyddol yn oddeutu £5 miliwn.

7 Yn 2014, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd adolygiad cynhwysfawr o’i ystâd i hysbysu’r cynllun cyfalaf deng mlynedd y gofynnodd Llywodraeth Cymru amdano. Amlygodd yr adolygiad y byddai angen cyllid sylweddol i godi’r ystâd a’r offer i’r safon orau bosibl. Ar gyfer 2015-16, gwelodd y Bwrdd Iechyd bod angen am £47.7 miliwn arall o gyllid cyfalaf dewisol, yn ychwanegol at y £9.9 miliwn a sicrhawyd eisoes.

8 Asesiadau strwythuredig yw archwiliad blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau cyrff y GIG i gefnogi trefn lywodraethu da ac i ddefnyddio adnoddau’n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mewn asesiadau strwythuredig blaenorol codwyd pryderon ynglŷn ag ystâd y Bwrdd Iechyd; er enghraifft, y Bwrdd Iechyd sydd â’r ôl-groniad ail fwyaf o waith cynnal a chadw[1] yng Nghymru wedi’i addasu ar sail risg[2]. O’r ôl-groniad hwn, caiff oddeutu £33 miliwn ei gategoreiddio fel risg uchel a sylweddol. O’i gymharu â chyrff iechyd eraill yng Nghymru, mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gyffredinol is na’r cyfartaledd ar ddangosyddion ystadau Llywodraeth Cymru. Caerdydd a’r Fro yw’r Bwrdd Iechyd sy’n perfformio waelaf o ran cyflwr ffisegol yr ystâd a’r ail isaf o ran addasrwydd gweithredol. Cydymffurfiaeth â rheoliadau diogelwch tân yw’r unig darged y mae’r Bwrdd Iechyd wedi’i gyrraedd[3]. Mae Atodiad 1 yn dangos perfformiad hanesyddol y Bwrdd Iechyd ar ddangosfwrdd ystadau GIG Cymru er 2008.

[1] Gwaith cynnal a chadw sy’n ofynnol i ddod ag asedau i gyflwr ffisegol a bennir gan y GIG a/neu i gydymffurfio â gofynion diogelwch tân gorfodol a deddfwriaeth diogelwch statudol.

[2] NHS Estates: A risk-based methodology for establishing and managing backlog. Gateway reference 4102 TSO 2004

[3] Adroddiad dangosfwrdd Ystadau’r GIG 2014/15

9 Ar gyfer 2015-16, ni phennodd y Bwrdd Iechyd gyllideb ariannol gytbwys. Rhagwelai'r Bwrdd Iechyd ddiffyg o £13.2 miliwn, ffigur y mae'n bwriadu ei ostwng i £8.4 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Yn yr amgylchedd ariannol anodd hwn ynghyd ag ôl-groniad cynnal a chadw sylweddol, mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn cael y gwerth am arian gorau posibl o'i ystâd a'r adnoddau cysylltiedig.

10 Mae ein hadolygiad felly wedi ceisio ateb y cwestiwn canlynol: a yw'r Bwrdd Iechyd yn rheoli ei ystâd yn effeithiol? Wrth ateb y cwestiwn, rydym wedi ystyried:

- a yw dull strategol y Bwrdd Iechyd o reoli ei ystâd yn gadarn; ac
- a yw'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaeth ystadau darbodus, effeithlon ac effeithiol.

11 Rydym wedi dod i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau cadarnhaol i wella'r drefn rheoli ystadau, ond y byddai'n elwa o gyflwyno cynllun strategol i gyfarwyddo gweithgareddau:

- mae'r dull strategol o reoli'r ystâd yn gwella, ond nid oes strategaeth gynhwysfawr i'w chael:
  - mae'r Bwrdd Gwasanaethau yn cymryd camau cadarnhaol i godi proffil y tîm ac atebolrwydd, a cheir gwell eglurder o safbwynt rolau a chyfrifoldebau;
  - nid oes strategaeth ystadau gynhwysfawr i'w chael, er hynny mae arweinyddion gwasanaethau yn glir ynglŷn â blaenoriaethau'r gwasanaeth;
  - gwneir ymdrechion i gydgasglu data asedau cynhwysfawr, ond bu oedi oherwydd prinder adnoddau, ail-flaenoriaethu cyllid, a gan fod arolygon yn amlygu'r angen am waith unioni; ac
  - mae prosesau wedi'u cyflwyno ar gyfer blaenoriaethu a monitro gwaith cyfalaf, ac mae'r rhain yn cyd-fynd â strwythur y Bwrdd Gwasanaethau newydd.
- mae'r drefn rheoli perfformiad ac ymgysylltu â staff yn gwella ond nid oes gan y gwasanaeth adnoddau digonol o'i gymharu â maint a chyflwr yr ystâd:
  - nid yw'r adnoddau'n gydnaws â maint a chyflwr yr ystâd a, thra bo cyllidebau yn seiliedig ar anghenion gwasanaethau, mae hyn o fewn y gyllideb sydd ar gael;
  - ni cheir cydbwysedd rhwng y gwaith atgyweirio ymatebol a'r gwaith cynnal a chadw wedi'i drefnu, ac nid yw hyn yn rhoi gwerth da am arian;
  - nid yw'n glir sut caiff meincnodi ac ymarferion profi'r farchnad eu defnyddio i gynllunio ar gyfer arbedion hirdymor;
  - mae'r dangosfwrdd perfformiad newydd yn ddatblygiad cadarnhaol, er hynny, nid oes rhaglen i'w chael i archwilio gwaith atgyweirio a gwblhawyd; ac

– mae'r rheolwyr yn cymryd camau cadarnhaol i roi sylw i lefelau boddhad gwael ymysg y staff, gwella'r dulliau cyfathrebu, a chael atebion cynaliadwy i recriwtio a chadw crefftwyr.

# Argymhellion

Arddangosyn 1: argymhellion

| Rheoli'r ystâd yn strategol | |
|---|---|
| R1 | Sicrhau bod y gwasanaeth ystadau yn cael ei gynrychioli ar lefel y bwrdd, rhoi blaenoriaeth i recriwtio aelod bwrdd annibynnol ar gyfer yr ystadau. |
| R2 | Creu cofnod canolog o broblemau sy'n gysylltiedig â'r ystâd a'r camau gweithredu o gyfarfodydd Bwrdd Clinigol. |
| R3 | Llunio Strategaeth Rheoli Ystadau gyda manylion costau llawn. |
| **Gwasanaeth ystadau darbodus, effeithlon ac effeithiol** | |
| R4 | Datblygu cyllideb ystadau ar sail sero sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer costau refeniw sy'n debygol o godi o newidiadau yn ystâd y Bwrdd Iechyd, megis adeiladau newydd. |
| R5 | Cyflwyno system i archwilio canran o'r gwaith atgyweirio bob mis. |
| R6 | Cryfhau'r drefn rheoli perfformiad drwy:<br>• ymestyn y dangosfwrdd perfformiad newydd i gynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAion) ar gyfer y gwasanaethau eraill y mae'r Bwrdd Gwasanaethau yn gyfrifol amdanynt; a<br>• defnyddio mwy ar y data sy'n cael ei gipio drwy'r system atgyweirio a chynnal a chadw Backtraq. |
| R7 | Sicrhau bod gwaith atgyweirio'n cael ei flaenoriaethu'n gywir:<br>• cynnal hyfforddiant gloywi ar gyfer Backtraq i staff y ddesg gymorth; ac<br>• adolygu'r cwestiynau ar sgriptiau'r staff sy'n delio â galwadau. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r dull strategol o reoli'r ystâd yn gwella, ond nid oes strategaeth gynhwysfawr i'w chael

### Mae'r Bwrdd Gwasanaethau yn cymryd camau cadarnhaol i godi proffil y tîm ac atebolrwydd, a cheir gwell eglurder o safbwynt rolau a chyfrifoldebau

12 Crëwyd y Bwrdd Gwasanaethau Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau yn dilyn ad-drefnu ym mis Ebrill 2016. Mae'r strwythur newydd yn darparu llinellau cyfrifoldeb clir ar gyfer pob maes busnes, sef: ystadau a chyfleusterau; cyfalaf dewisol a chydymffurfiaeth; gwaith cyfalaf mawr; a gwasanaethau masnachol. Y Cyfarwyddwr Cynllunio yw'r arweinydd gweithredol ac mae'r Cyfarwyddwr Rheoli Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau yn gyfrifol am rediad y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae Pennaeth Cyllid a Phennaeth Gweithlu a Datblygu Sefydliadol hefyd yn eistedd ar y Bwrdd Gwasanaethau.

13 Ar lefel y bwrdd, mae agoriad ar gyfer aelod annibynnol i arwain ar ystadau; adeg yr adolygiad hwn, bu'r swydd yn wag ers oddeutu chwe mis. Caiff penderfyniadau megis cymeradwyo'r cynllun cyfalaf eu gwneud ar lefel y bwrdd. Er mwyn sicrhau y ceir eiriolwr dros yr ystâd, mae'n bwysig i'r Bwrdd Iechyd recriwtio i'r swydd hon cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y bwrdd yn gefnogol ac yn ymwybodol o'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth ystadau.

14 Adroddir ar faterion sy'n ymwneud â'r ystâd drwy'r Pwyllgor Pobl, Cynllunio a Pherfformiad (PPP) a'r pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE). Mae cynllunio yn eitem sefydlog ar agenda'r pwyllgor PPP ac mae hyn yn cynnwys diweddariadau am yr ystâd. Mae'r pwyllgor yn derbyn yr adroddiad sicrwydd cyfalaf, diweddariad ar gydymffurfiaeth statudol; cofrestr risg yr ystâd a DPAion ar gyfer gwaith atgyweirio. Mae'r pwyllgor QSE yn cadw golwg ar gydymffurfio â safonau glanhau[4] ac yn monitro cynlluniau gweithredu gwaith unioni. Mae'r ddau bwyllgor yn cyfarfod bob deufis ac yn adrodd yn ôl i'r bwrdd.

15 Ar lefel strategol, cynhelir y prif fforwm i graffu ar berfformiad yng nghyfarfod misol y Bwrdd Gwasanaethau, ac mae pob pennaeth gwasanaeth yn paratoi adroddiad ar gyfer y cyfarfod hwn. Yn weithredol, cynhelir cyfarfod perfformiad misol y mae rheolwyr tîm y gogledd a thîm y de yn mynd iddo, lle trafodir materion lleol ynglŷn â chyllid a pherfformiad.

[4] Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro glendid gan ddefnyddio'r system Cymru gyda 'Credits 4 Cleaning'.

16 Mae swyddogaethau'r bwrdd gwasanaethau yn rhychwantu'r Bwrdd Iechyd cyfan; felly, mae cyfathrebu da yn hanfodol er mwyn cynnal gwasanaeth effeithlon. O ran ymgysylltu â byrddau clinigol, mae uwch-reolwr ystadau yn gweithredu fel yr unigolyn cyswllt ar gyfer pob bwrdd clinigol. Datblygiad diweddar yw hwn, ond dywedwyd wrthym fod yr adroddiadau cychwynnol yn gadarnhaol. Mae'r gyfnewidfa wybodaeth ddwyffordd yn caniatáu i'r byrddau clinigol a'r Bwrdd Gwasanaethau godi pryderon a rhoi diweddariadau. Adroddir ar gamau gweithredu sy'n deillio o gyfarfodydd bwrdd clinigol yn uniongyrchol wrth yr unigolyn priodol. Byddem yn awgrymu bod cofnod canolog o bryderon a chamau gweithredu yn cael ei ddatblygu er mwyn gallu olrhain pryderon a godir yn aml. Er mwyn sicrhau adborth gan staff gweithredol, mae cynrychiolydd staff yn mynychu cyfarfodydd misol y bwrdd gwasanaethau.

## Nid oes strategaeth ystadau gynhwysfawr i'w chael, er hynny mae arweinyddion gwasanaethau yn glir ynglŷn â blaenoriaethau'r gwasanaeth

17 Nid oes strategaeth gynhwysfawr i'w chael ar gyfer y gwasanaeth ystadau. Yn hytrach, caiff y bwriad strategol ar gyfer y gwasanaeth ei ddatgan yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig (IMTF) y Bwrdd Iechyd. Ceir hefyd Gynllun Cyfalaf Strategol sy'n rhoi manylion y gwariant cyfalaf sydd ei angen dros y deng mlynedd nesaf ac sy'n amlinellu cyflwr presennol yr ystâd. Yn ddiweddar, mae'r Tîm Ystadau a Chyfleusterau wedi llunio strategaeth dymor byr anffurfiol gan nodi ynddi flaenoriaethau cychwynnol tymor canolig a hirdymor, ond ni cheir amserlenni na manylion costau.

18 Er bod manylion costau i'w cael yn yr IMTP a'r Cynllun Cyfalaf Strategol, gyda'i gilydd, nid yw'r dogfennau hyn yn rhoi sylw i holl gyfrifoldebau'r Bwrdd Gwasanaethau. Er enghraifft, nid oes sôn am flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau masnachol. Mae cynllunio strategol yn hollbwysig i redeg gwasanaeth effeithiol, effeithlon. Dylai strategaeth dda fod yn seiliedig ar ateb y tri chwestiwn hyn. Sef:

- ble ydyn ni nawr?
- ble ydyn ni eisiau bod?
- sut ydyn ni'n cyrraedd yno?

19 Roedd yr arweinydd gweithredol yn glir mai'r tair prif flaenoriaeth ar gyfer yr ystadau yw lleihau ôl-troed y Bwrdd Iechyd yn y 10 i 15 mlynedd nesaf, gan sicrhau y bodlonir y rhwymedigaethau cydymffurfio statudol, a rheoli adnoddau yn effeithlon. Er bod yr IMTP yn amlinellu'r prif flaenoriaethau a'r heriau i'r gwasanaeth ystadau, nid yw'n disgrifio'n fanwl, sut bydd y blaenoriaethau'n cael eu cyflawni.

20 Rydym yn cydnabod bod hwn yn Fwrdd Gwasanaethau cymharol newydd, ond mae arno angen strategaeth sy'n datgan ble mae'n awr, ble mae eisiau bod a sut bydd yn cyrraedd yno.

Mae'r flaenoriaeth i reoli adnoddau yn fwy effeithlon yn cynnwys elfen o weddnewid gwasanaethau. Bydd datblygu strategaeth yn caniatáu i staff lefel weithredol ddeall gweledigaeth a chyfeiriad ei wasanaeth i'r dyfodol, a bydd hyn yn ei dro yn meithrin ymddiriedaeth. Mae'r dogfennau strategol presennol yn sylfeini da, ond dylai'r strategaeth gwmpasu'r holl wasanaethau a ddarperir, gan roi manylion costau, heriau'r gweithlu a dangosyddion perfformiad ar gyfer pob tîm.

21 Mae'r gwasanaeth yn dechrau gweithredu offer strategol, er enghraifft, drwy gyflwyno rhaglen gwaith cynnal a chadw wedi'i drefnu, rhaglenni adnewyddu, a drwy dreialu tasgmon aml-grefft ar wardiau. Dylai'r rhain oll gael eu nodi mewn cynllun cyflawni ar gyfer y gwasanaeth neu'r tîm gan gyplysu â'r strategaeth gynhwysfawr.

## Gwneir ymdrechion i gydgasglu data asedau cynhwysfawr, ond bu oedi oherwydd prinder adnoddau, ail-flaenoriaethu cyllid, a gan fod arolygon yn amlygu'r angen am waith unioni

22 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gronfa ddata asedau gynhwysfawr, er ei fod wrthi'n casglu data asedau drwy arolygon o gyflwr. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod ei adeiladau yn bodloni rheoliadau iechyd a diogelwch megis asbestos, nwy, trydan a diogelwch tân. Yn 2014, canfu adolygiad annibynnol o holl feysydd cydymffurfiaeth yr ystâd fod dros 40 o elfennau unigol o systemau'r ystadau angen archwiliad blynyddol i gydymffurfio â rhwymedigaethau statudol a gorfodol; mae hyn yn peri risg uchel i'r Bwrdd Iechyd. Creodd y Bwrdd Iechyd dîm Cydymffurfiaeth yr Ystâd i fynd i'r afael â'r materion. Roedd y tîm newydd gael ei recriwtio'n llawn adeg yr adolygiad hwn.

23 Mae'r tîm wedi datblygu rhaglen archwilio cydymffurfiaeth statudol ac adroddir ar y cynnydd yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd Gwasanaethau ac yn y pwyllgor PPP. Fodd bynnag, mae nifer o bethau sy'n cyfyngu ar y rhaglen archwilio, er enghraifft cyllid. I ddechrau, amcangyfrifwyd y byddai cost cynnal yr archwiliadau yn tua £4 miliwn, ond ychydig dros £1 filiwn yn unig a ryddhawyd drwy'r gyllideb cynnal a chadw ystadau. Hefyd, oherwydd diffyg buddsoddi digonol yn yr ystâd yn y gorffennol, mae'r arolygon o gyflwr yn amlygu llawer o waith unioni sy'n rhoi pwysau ar gyllidebau ac yn ychwanegu at yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw. Er enghraifft, cynyddodd y cyllid blynyddol ar gyfer cydymffurfio o ran legionela o £178,000 i £400,000 ar ôl yr archwiliadau.

24 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod, heb ddata cynhwysfawr ar gyflwr y stoc, ei bod yn anodd deall cost lawn y gwaith sydd ei angen er mwyn i'r ystâd gyrraedd y safon ofynnol. Roedd tîm Cydymffurfiaeth yr Ystâd wedi bwriadu datblygu cronfa ddata asedau lawn o fewn dwy flynedd, ond mae oedi gyda'r ad-drefnu, adnoddau a phryderon ariannu, a gwaith unioni oherwydd yr arolygon o gyflwr stoc wedi dyblu'r amserlen i bedair blynedd, ac mae hyn yn amodol ar gyllid.

25 Yr her i'r tîm yw cynnal ystâd ddiogel a gweithredol o fewn cyllideb gyfyngedig. Roedd y gyllideb ar gyfer gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni ar gyfer 2015-

16 yn £1 filiwn (o gyllid cyfalaf dewisol). Oherwydd oed yr ystâd, mae nifer o'r cyfarpar yn cael gradd D yn dilyn arolwg o gyflwr. Mae Categori D yn golygu bod y cyfarpar yn weithredol fregus ac mewn perygl o dorri'n fuan. Mae cynifer y cyfarpar categori D, ynghyd â chyllideb gyfyngedig, wedi golygu bod y tîm cydymffurfiaeth wedi gorfod categoreiddio'r cyfarpar categori D ymhellach yn seiliedig ar gategorïau 1 i 5 er mwyn sicrhau bod y gwaith hanfodol yn cael blaenoriaeth.

## Mae prosesau wedi'u cyflwyno ar gyfer blaenoriaethu a monitro gwaith cyfalaf, ac mae'r rhain yn cyd-fynd â strwythur y Bwrdd Gwasanaethau newydd

26 Y Grŵp Rheoli Cyfalaf (CMG) sy'n gyfrifol am gymeradwyo (a monitro) y rhaglen gyfalaf, cyn i'r bwrdd ei chymeradwyo. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol ac yn adrodd wrth y pwyllgor PPP. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio gan Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd oherwydd y risgiau uchel sy'n gysylltiedig â'r ystâd. Rhaid i bob achos busnes cyfalaf gael ei gymeradwyo gan y CMG.

27 Mae'r tîm Cynllunio Cyfalaf wedi datblygu siart Gantt sy'n rhoi manylion yr holl brosiectau cyfalaf gan gynnwys y rheini sydd yn y cam syniadau. Defnyddir y siart i hwyluso trafodaethau bob pythefnos rhwng y Cyfarwyddwr Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau a'r Prif Swyddog Gweithredu. Mae adroddiad diweddaru ar brosiectau cyfalaf yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod misol y Bwrdd Gwasanaethau.

28 Fel y nodwyd yn gynharach, ar ôl cynnal adolygiad o'r ystâd ar gyfer yr Adolygiad o Gyfalaf Cymru gyfan, cafwyd rhestr o'r datblygiadau cyfalaf gofynnol a'r cyfarpar yr oedd angen ei adnewyddu ond na allai'r cyllid cyfalaf dewisol rheolaidd dalu amdanynt. Felly, datblygodd y CMG fframwaith blaenoriaethu i lywio'r broses o roi'r gwaith cyfalaf mawr yn nhrefn blaenoriaeth.

29 Gyda cheisiadau llai am gyllid cyfalaf dewisol, rhaid i adrannau lenwi ffurflen gais am gyllid cynlluniau cyfalaf. Mae'r manylion y gofynnir amdanynt ar y ffurflen yn cynnwys disgrifiad o'r cynnig, costau, amserlenni, asesiadau risg a pha adrannau eraill y cysylltwyd â nhw. Dywedwyd wrthym fod yn rhaid i'r cyfarwyddwr bwrdd clinigol priodol lofnodi'r ffurflen cyn ei chyflwyno i'r Tîm Cyfalaf Dewisol i'w hystyried. Mae'r tîm Cyfalaf Dewisol wedyn yn cyflwyno argymhelliad i'r Bwrdd Gwasanaethau, lle caiff y gwariant ei ystyried fel rhan o'r rhaglen cyfalaf dewisol.

30 Mae pennu costau gydol oes yn dechneg arfarnu buddsoddiadau sy'n asesu cyfanswm cost ased gydol ei oes. Mae'n cymryd i ystyriaeth y gost gyfalaf gychwynnol, yn ogystal â chostau gweithredol, cynnal a chadw, atgyweirio, uwchraddio a chostau gwaredu yn y pen draw. Dywedwyd wrthym fod achosion busnes ar gyfer prosiectau cyfalaf yn tueddu i gynnwys costau gydol oes, ond oherwydd cronfeydd cyfalaf cyfyngedig, anaml y caiff cynlluniau gydol oes eu rhoi

ar waith. Er enghraifft, mae BREEAM[5] yn ddull a ddefnyddir i asesu ac ardystio cynaliadwyedd adeilad. Wrth asesu, ceir dau bwynt BREEAM ar gyfer canfod cost gydol oes, un ar gyfer cynllunio ac un ar gyfer gweithredu. Dywedwyd wrthym fod y Bwrdd Iechyd fel arfer ond yn cael y pwynt ar gyfer cynllunio, sy'n golygu bod cynlluniau yn rhoi ystyriaeth i gostau gydol oes, ond fod y Bwrdd Iechyd yn ei chael yn anodd eu gweithredu.

Mae peidio â gweithredu cynlluniau gydol oes yn arwain at bwysau costau ychwanegol ar gyllideb y gwasanaeth, a phan fydd dan bwysau, mae perygl na fydd y gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau wedi cyflwyno proses newydd ar gyfer cymeradwyo achosion busnes, sy'n sicrhau bod costau refeniw i'r dyfodol, megis costau gweithredol a chynnal a chadw yn cael eu cyfrif.

# Mae'r drefn rheoli perfformiad ac ymgysylltu â staff yn gwella ond nid oes gan y gwasanaeth adnoddau digonol o'i gymharu â maint a chyflwr yr ystâd

## Nid yw'r adnoddau'n gydnaws â maint a chyflwr yr ystâd a, thra bo cyllidebau yn seiliedig ar anghenion gwasanaethau, mae hyn o fewn y gyllideb sydd ar gael

31 Mae cyllideb flynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer cynnal a chadw'r ystâd yn ychydig dros £5 miliwn ac mae hon yn cynnwys dyraniad wedi'i glustnodi o £250,000 ar gyfer gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni. Comisiynodd y Bwrdd Iechyd adolygiad allanol[6] er mwyn deall sut mae'n cymharu yn erbyn ysbytai addysgu mawr eraill yn y DU. Mae Arddangosyn 2 yn dangos mai Caerdydd a'r Fro sydd â'r gwariant isaf y metr sgwâr o'i gymharu â sefydliadau o faint tebyg ac o'i gymharu â ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan, ac mae'n gwario drwyddo draw £10 yn llai y metr sgwâr.

32 Mae Arddangosyn 2 hefyd yn dangos bod gan y Bwrdd Iechyd weithlu llai o'i gymharu â sefydliadau o faint tebyg. Mae'r tîm atgyweirio yn cynnwys 114 ac mae'n gyfrifol am 43 o adeiladau. Mae maint cyfartalog y gweithlu mewn sefydliadau tebyg yn 141. Mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig ar ffigurau 2013-14 ac adeg yr adolygiad hwn, roedd y Bwrdd Gwasanaethau wedi comisiynu ail ymarferiad meincnodi.

[5] Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu

[6] Gwnaed yr adolygiad gan Capita ym mis Tachwedd 2013.

Arddangosyn 2: cymharu'r gweithlu a chost gwasanaethau ystadau, 2013-14

| Ysbyty/ymddiriedolaeth/bwrdd iechyd | Arwynebedd llawr M² | Cyllideb cynnal a chadw £ | WTE y Gweithlu | Gwariant y M² £ |
|---|---|---|---|---|
| GIG Llundain ac Ysbyty Barts | 295,290 | 11,920,234 | 126 | 40.40 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Imperial College | 294,591 | 7,855,583 | 152 | 26.63 |
| Ysbytai Prifysgol Canol Manceinion | 279,514 | 10,338,644 | 121 | 36.92 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Addysgu Leeds | 522,323 | 11,161,298 | 217 | 22.32 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Nottingham | 310,463 | 8,109,737 | 161 | 26.16 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Prifysgol Caerlŷr | 278,747 | 5,598,254 | 126 | 20.14 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Radcliff Rhydychen | 316,688 | 8,634,772 | 148 | 27.30 |
| **Ffigur cyfartalog yr uchod** | **350,000** | **6,903,456** | **141** | **26.58** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 349,725 | 5,375,955 | 114 | 15.36 |
| **Ffigur cyfartalog Cymru gyfan** | **1,675,142** | | | **24.85** |

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Cynllun Tymor Canolig Integredig Caerdydd a'r Fro 2015-16

33 Ac ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i gynnal a chadw'r ystadau, mae angen i'r tîm sicrhau ei fod yn rheoli cyllidebau'n ddarbodus. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn dechrau cyflwyno'r canlynol er mwyn rheoli cyllidebau'n well:

- cysoni cyllideb y tîm Ystadau a Chyfleusterau gyda'r strwythur newydd;
- gwneud rheolwyr ardal yn atebol am eu cyllidebau eu hunain;
- sicrhau bod rheoli cyllidebau yn un o'r amcanion gan reolwyr ardal; a
- chyflwyno mesurau perfformiad allweddol ar gyfer gwariant ar atgyweirio.

34 Mae Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu (CIBSE) yn argymell y dylai cyllidebau fod ar sail sero. Yn hytrach na rhoi ychwanegiad at gyllideb y flwyddyn flaenorol, mae cyllidebau ar sail sero yn dechrau o 'sylfaen sero' ac mae'r gyllideb yn cael ei chynyddu ar sail anghenion a chostau. Mae'r dull

hwn yn darparu cyllideb fwy cynaliadwy, gan leihau'r risg o beidio â bodloni'r anghenion cynnal a chadw hanfodol a statudol.

35 Nid yw cyllideb ystadau'r Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar sero. Mae'r system bresennol o gyllidebu yn seiliedig ar angen, ond o fewn y gyllideb sydd ar gael. Dywedwyd wrthym fod cyllidebu ar sail sero yn uchelgais ond ceir pryder y byddai'r dull hwn yn gadael bwlch cyllid.

36 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym nad ydynt yn y gorffennol, bob amser wedi ystyried costau cynnal a chadw'r dyfodol ar gyfer adeiladau newydd, er enghraifft, yr ysbyty plant newydd lle bu'n rhaid ysgwyddo'r costau cynnal a chadw. Rhannol wir yn unig yw cyngor CIBSE bod adeiladau mwy newydd yn costio llai nag adeiladau hŷn i'w cynnal a'u cadw. Dylai adeiladau mwy newydd fod yn llai tueddol o fod yn ddiffygiol, ond maent yn fwy cymhleth nag adeiladau hŷn. Felly, mae'n bosibl i adeiladau mwy newydd fod yn ddrutach i'w cynnal yn y tymor hir ac efallai y bydd angen sgiliau gwahanol. Bydd methu â gwneud darpariaeth ar gyfer costau cynnal a chadw adeiladau newydd yn parhau i roi pwysau ar gyllidebau'r dyfodol yn y tymor hir. Fodd bynnag, i'r dyfodol, dylai drefn o gymeradwyo achosion busnes a gwell strwythur llywodraethu helpu i liniaru'r diofalwch o beidio â sicrhau lwfans yn y gyllideb ar gyfer cynnal a chadw.

## Ni cheir cydbwysedd rhwng y gwaith atgyweirio ymatebol a'r gwaith cynnal a chadw wedi'i drefnu, ac nid yw hyn yn rhoi gwerth da am arian

37 Dylai byrddau iechyd gael strategaeth cynnal a chadw lle bo'r llwyth gwaith ymatebol a'r llwyth gwaith wedi'i drefnu yn gytbwys. Mae atgyweirio ymatebol, sydd heb ei gynllunio, yn gyffredinol yn fwy drud na gwaith cynnal a chadw wedi'i drefnu. Yn y tymor hir, dylai mwy o waith wedi'i drefnu arwain at lai o waith ymatebol a llai o feiau trychinebus. Fodd bynnag, gallai cynnal a chadw gormodol ddraenio adnoddau'n ddiangen gan arwain at broblemau eraill.

38 Fel arfer da dylai adran ystadau adolygu'r lefelau gwaith ymatebol a'r gwaith wedi'i drefnu o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau y ceir cydbwysedd effeithlon rhwng y ddau. Er nad oes meincnod arfer da y cytunwyd arno gan y GIG, mae adrannau cynnal a chadw llywodraeth leol yn gyffredinol o'r farn y dylai'r rhaniad rhwng atgyweiriadau wedi'u trefnu ac atgyweiriadau ymatebol fod rhwng 70:30 a 60:40 yn ôl gwerth.

39 Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgymryd ag oddeutu 15,000 o dasgau cynnal a chadw wedi'u trefnu ac oddeutu 40,000 o geisiadau am waith trwsio. Mae hyn yn dangos y ceir anghydbwysedd rhwng tasgau atgyweirio ymatebol a thasgau atgyweirio wedi'u trefnu, ond mae hefyd yn arwydd o gyflwr gwael ac oedran yr ystâd. Dywedwyd wrthym fod gan y Bwrdd Iechyd uchelgais i gael cymhareb 60:40 o waith wedi'i drefnu a gwaith ymatebol, ond mae'r ffigur presennol yn agosach at 20:80. Ar hyn o bryd caiff DPA 'yr holl waith' ei ddefnyddio fel meincnod mewnol i fonitro'r cydbwysedd rhwng gwaith atgyweirio wedi'i drefnu a gwaith ymatebol.

## Nid yw’n glir sut caiff meincnodi ac ymarferion profi’r farchnad eu defnyddio i gynllunio ar gyfer arbedion hirdymor

40 Er mwyn sicrhau bod y gyllideb ystadau yn rhoi gwerth am arian, dylai byrddau iechyd werthuso darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yn rheolaidd. Y ffordd orau o wneud hyn yw mewn ffordd gynaliadwy ac wedi’i chynllunio i’r hirdymor, gan edrych y tu hwnt i arbedion tymor byr. Gall yr arfer o frigdorri cyllidebau, neu arbed costau’n fympwyol, adael sefydliadau yn agored ac yn amharod ar gyfer y dyfodol, a gall hyn arwain at gostau cyffredinol uwch neu gostau mewn mannau eraill. Mae dull gweithredu strategol hefyd yn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cyd-fynd ag amcanion y bwrdd iechyd a’r adrannau.

41 Fel y crybwyllwyd uchod, comisiynodd y Bwrdd Iechyd ymarferiad meincnodi a oedd yn cymharu llwyth gwaith cynnal a chadw’r ystadau â’r adnoddau sydd ar gael.

Bu’r ymarferiad o gymorth i’r gwasanaeth ddeall y gwariant yn erbyn sefydliadau tebyg a’r lefelau cynhyrchiant yn erbyn y ffigur cyfartalog cenedlaethol. Dywedwyd wrthym y bu’r data cynhyrchiant yn ddefnyddiol i reoli perfformiad y tîm atgyweirio. Er enghraifft, mae’r data cynhyrchiant archebion (gwaith atgyweirio) yn cael ei arddangos mewn meysydd tîm a gellir eu dadansoddi i lefel crefftau ac unigolion i roi sylw i danberfformiad.

42 Mae’r Bwrdd Iechyd yn cwblhau ffurflenni Systemau Rheoli Perfformiad a Chyfleusterau Ystadau (EFPMS) GIG Cymru. Dywedwyd wrthym nad yw EFPMS fel offeryn meincnodi yn effeithiol oherwydd bod y wybodaeth ar y system yn rhy eang, a’i bod yn anodd cymharu yn erbyn sefydliadau o faint tebyg. Hefyd, ar yr wyneb, mae’n ymddangos bod y Bwrdd Iechyd yn perfformio’n dda o safbwynt gwariant y metr sgwâr ond mewn gwirionedd, fel y gwelir yn Arddangosyn 2, mae’r Bwrdd Iechyd yn tanwario ar yr ystâd o’i gymharu â sefydliadau o faint tebyg.

43 Arddangosyn 3 yw perfformiad y Bwrdd Iechyd ar ddangosfwrdd ystadau GIG Cymru. Dengys hwn bod y Bwrdd Iechyd, drwyddo draw, yn perfformio’n wael yn erbyn gofynion GIG Cymru, yn enwedig o safbwynt cyflwr ffisegol ac addasrwydd gweithredol.

### Arddangosyn 3: perfformiad yn erbyn dangosfwrdd ystadau GIG Cymru 2012-2015

| Meini prawf asesu | Sgôr 2012-13 | Sgôr 2013-14 | Sgôr 2014-15 | Categori CAG 2014-15 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflwr ffisegol | 85 | 74 | 74 | Coch |
| Cydymffurfiaeth statudol a diogelwch | 91 | 81 | 85 | Ambr |
| Cydymffurfiaeth â diogelwch tân | 95 | 84 | 91 | Gwyrdd |
| Addasrwydd gweithredol | 81 | 56 | 62 | Coch |
| Defnyddio gofod | 87 | 89 | 89 | Ambr |

Categori CAG: Coch hyd at 75%, Ambr 75-89%, Gwyrdd 90% neu uwch.

Ffynhonnell yr Arddangosyn: Adroddiad ar Gyflwr a Pherfformiad Ystadau GIG Cymru 2014-15

44 Dengys Atodiad 1 berfformiad hanesyddol y Bwrdd Iechyd ar ddangosfwrdd ystadau GIG Cymru er 2008. Dengys hwn bod y Bwrdd Iechyd islaw'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan gyda phob un ond un o'r pum mesur.

45 Ar draws Cymru, mae adrannau ystadau byrddau iechyd dan bwysau cynyddol i leihau eu cyllidebau a pharhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau clinigol diogel. Mae uwch bersonél ystadau felly yn canolbwyntio fwyfwy ar yr angen i wneud arbedion effeithlonrwydd. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau yn gobeithio gwneud arbedion mewn nifer o ffyrdd. Mae rhai o'r rhain, ond nid pob un, wedi'u nodi yn ei IMTP a'r Cynllun Cyfalaf Strategol:

- mae ei Gynllun Cyfalaf Strategol a'i IMTP yn enwi adeiladau y bwriedir eu gwaredu, gan gynhyrchu incwm a lleihau ymrwymiadau gweithredol a chynnal a chadw ar yr un pryd. Fel y dywedwyd yn gynharach, mae'r rhaglen lleihau'r ystâd yn un o flaenoriaethau allweddol y gwasanaeth.
- mae strategaeth adeiladau'r Bwrdd Iechyd yn archwilio ffyrdd newydd o weithio, er mwyn lleihau'r angen am gynifer o adeiladau.
- mae gwelliannau'n cael eu gwneud i ddulliau rheoli contractau, a dylai hynny yn ei dro arwain at arbedion effeithlonrwydd. Mae arolygon cydymffurfio yn cael eu rhoi ar gontractau allanol. Sylweddolodd y tîm fod sawl contractwr yn gwneud yr un math o arolwg, er enghraifft profion PAT (Profi Offer Cludadwy). I gael gwell rheolaeth ar gontractau, mae nifer y contractwyr yn cael ei ad-drefnu drwy dendro pecynnau o waith.
- mae tasgmon aml-grefft ar wardiau sy'n ffurfio rhan o'r tîm clinigol yn cael ei dreialu. Mae'r cynllun peilot yn cael ei werthuso a'i gostio cyn cael ei gyflwyno i wardiau eraill.
- mae'r gwasanaeth wedi sefydlu un ddesg gymorth atgyweiriadau sy'n gweithredu o ganolfan alwadau a rennir.

## Mae'r dangosfwrdd perfformiad newydd yn ddatblygiad cadarnhaol, er hynny, nid oes rhaglen i'w chael i archwilio gwaith atgyweirio a gwblhawyd

46 Prif nodweddion system rheoli perfformiad dda yw targedau perfformiad ystyrlon sy'n cael eu mesur, gan adrodd ar y perfformiad yn erbyn y targedau hyn mewn ffordd gyson. Megis dechrau'r broses hon y mae'r Bwrdd Gwasanaethau.


47 Fel y dywedwyd yn flaenorol, mae pob tîm yn paratoi adroddiad ar berfformiad ar gyfer y cyfarfod misol o'r Bwrdd Gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae pob tîm yn cyflwyno ei ddata perfformiad mewn fformatau gwahanol. Yn ddiweddar, fe wnaeth y Tîm Ystadau a Chyfleusterau ddatblygu dangosfwrdd perfformiad, a welir yn Arddangosyn 4. Mae'r dangosfwrdd yn dangos crynodeb o berfformiad yn erbyn DPA y tîm. Mae'r dangosfwrdd yn dangos ystod dda o sgoriau perfformiad ar draws swyddogaethau rheoli cyfleusterau caled a meddal, rheoli pobl a rheolaeth ariannol.

Er mwyn cynnal ansawdd y data, caiff diweddaru system rheoli'r gwaith cynnal a chadw (Backtraq) ei gynnwys fel un o'r DPAion.

48 Mae'r dangosfwrdd yn dangos y DPAion canlynol ac, yn y rhan fwyaf o achosion, caiff y perfformiad ei rannu yn ardal y gogledd ac ardal y de:

- **Rheoli cyfleusterau meddal:** Sgoriau Cleaning 4 Credits, adroddiadau am ddamweiniau ac adroddiadau RIDDOR, sgoriau hylendid bwyd, nifer tasgau porthorion y dydd, amser ymateb porthorion;
- **Rheoli cyfleusterau caled:** mynediad i'r gronfa ddata asbestos, nifer y tasgau trwsio a gwblhawyd, nifer y tasgau ym mhob deg awr;
- **Rheoli pobl:** hyfforddiant gorfodol, gwerthuso, salwch, swyddi gwag a throsiant;
- **Rheolaeth ariannol:** glynu wrth gyfanswm y gyllideb gryno, cost goramser; ac
- **Ansawdd data:** glynu wrth ffigurau cwblhau Backtraq, ôl-groniad Backtraq.

Arddangosyn 4: dangosfwrdd perfformiad Ystadau a Chyfleusterau




Ffynhonnell yr arddangosyn: darparwyd y dangosfwrdd perfformiad gan y Bwrdd Iechyd

49 Mae'r tabl perfformiad yn ddatblygiad cadarnhaol i'r Bwrdd Gwasanaethau. Fodd bynnag, er cysondeb, byddem yn awgrymu bod y dangosfwrdd yn cael ei ymestyn i roi ystyriaeth i'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan y Bwrdd Gwasanaethau. Er enghraifft, DPAion ar gyfer cwblhau gwaith cyfalaf, perfformiad yn erbyn y gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni, cydymffurfio ag archwiliadau cydymffurfiaeth statudol, cynhyrchu incwm masnachol a boddhad cwsmeriaid gyda'r ystâd.

50 Mae system Backtraq y Bwrdd Iechyd yn cofnodi tasgau cynnal a chadw ac atgyweirio ac yn cynhyrchu data perfformiad. Dywedwyd wrthym nad oedd y system yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial, a bod y system gan y Bwrdd Iechyd ers rhai blynyddoedd cyn iddo ddechrau ei defnyddio. Roedd ansawdd y data yn wael, ond erbyn hyn mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar ei wella gan gynnwys DPA cydymffurfio â Backtraq ar ddangosfwrdd perfformiad yr ystadau a'r cyfleusterau.

51 Mae defnyddio'r Backtraq i'w lawn botensial a sicrhau data o ansawdd, yn allweddol i gael gwybodaeth reoli dda i'w defnyddio i gynllunio gwasanaethau. Mae ein hadolygiad o system TG Backtraq yn dangos bod iddi'r potensial i gynhyrchu gwybodaeth lawer mwy manwl nag y mae ar hyn o bryd, ac mae rhai esiamplau i'w cael yn Atodiad 2.

52 Ceir pwynt cyswllt canolog ar gyfer ceisiadau am atgyweiriadau; caiff hwn ei reoli drwy Backtraq. Canolfan gyswllt Bro Morgannwg (C1V) sy'n darparu gwasanaeth y ddesg gymorth atgyweirio ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Codwyd rhai pryderon ynglŷn â'r ddesg gymorth, megis:

- ceisiadau ddim yn cynnwys digon o fanylder;
- atgyweiriadau'n cael eu rhestru fel blaenoriaeth 1 neu 2 (brys neu 24 awr) sy'n golygu bod y tîm ystadau'n gorfod eu hail-gategoreiddio; a
- gormod o 'bellter' rhwng y ddesg gymorth a'r gwasanaeth.

53 Mae'r materion hyn, ar wahân i wastraffu amser hefyd yn achosi risg o ansawdd data gwael. Byddem yn argymell bod y tîm ystadau yn cynnal hyfforddiant gloywi Backtraq i staff y ddesg gymorth ac yn adolygu'r cwestiynau ar eu sgriptiau.

54 Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad yw Backtraq, i'r dyfodol, yn bodloni anghenion y gwasanaeth. Dewisach fyddai system ystadau cwbl integredig, sydd nid yn unig yn rheoli gwaith atgyweirio, ond hefyd yn rheoli archwiliadau, yn gronfa ddata asedau, yn rheoli galwadau porthorion ayb. Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn ymchwilio i systemau amgen.

55 Er mwyn sicrhau bod gwaith atgyweirio'n cael ei wneud i safon uchel, mae'n arfer da ôl-archwilio canran o atgyweiriadau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud llawer iawn o atgyweiriadau bob blwyddyn; fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad yw ôl-archwiliadau'n cael eu gwneud gan fod capasiti'n brin yn y tîm. Golyga hyn nad oes gan y Bwrdd Iechyd ddim sicrwydd bod y gwaith atgyweirio a wnaed o ansawdd da nac a yw'r atgyweiriadau yn cael eu gwneud oherwydd gwaith atgyweirio blaenorol gwael. Rydym yn argymell bod y gwasanaeth yn archwilio canran o'r holl atgyweiriadau bob mis.

56 Bydd gwasanaeth ystadau effeithlon ac sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn darparu gwasanaethau sy'n rhagori'n gyson ar ddisgwyliadau cwsmeriaid ac sy'n gwybod beth yw barn cwsmeriaid am y gwasanaeth. Un ffordd o sicrhau bod staff yn ystyried gwasanaethau i gwsmeriaid fel rhywbeth hanfodol yw defnyddio cod ymddygiad, siarter gwasanaeth neu debyg. Mae'r rhain yn datgan yn glir pa fath o ymddygiad a ddisgwylir gan staff ac yn darparu ffordd o gyplysu'r polisïau presennol. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfres o werthoedd y mae disgwyl i'r holl staff lynu wrthynt. Caiff y gwerthoedd eu hailadrodd yng nghylch gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw arolygon o foddhad defnyddwyr yn cael eu defnyddio, sy'n golygu nad oes gan y gwasanaeth unrhyw ddata dibynadwy i fesur beth mae ei gwsmeriaid yn feddwl ohono.

## Mae'r rheolwyr yn cymryd camau cadarnhaol i roi sylw i lefelau boddhad gwael ymysg y staff, gwella'r dulliau cyfathrebu, a chael atebion cynaliadwy i recriwtio a chadw crefftwyr

57 Mae canllawiau ar draws y GIG yn pwysleisio'r angen am atebolrwydd a chyfrifoldebau clir ar gyfer rheolwyr ystadau; y rheswm am hyn yw er mwyn sicrhau bod gan staff sy'n rheoli ystadau'r cymwysterau iawn.

58 Adeg yr adolygiad hwn, dim ond megis cael eu sefydlu'r oedd y Bwrdd Gwasanaethau newydd a'r tîm rheoli newydd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y tîm rheoli yn cymryd camau cadarnhaol i roi sylw i'r boddhad isel ymysg y staff a amlygwyd drwy arolwg staff 2015, sef drwy:

- fod y rheolwyr fwy yn y golwg;
- sefydlu gweithgorau i fynd i'r afael â phryderon a godwyd drwy'r arolwg staff;
- llunio cylchlythyr staff er mwyn gwella'r sianelau cyfathrebu â staff gweithredol;
- llunio cylchlythyr ar gyfer byrddau clinigol er mwyn codi proffil y gwasanaeth; a
- chynnwys cynrychiolydd staff ar y Bwrdd Gwasanaethau.

59 Dywedwyd wrthym fod recriwtio a chadw ynghyd â gweithlu sy'n heneiddio yn bryder mawr i'r tîm ystadau; mae hyn yn arbennig o wir am beirianwyr trydanol a mecanyddol. Graddfeydd cyflog anghystadleuol yw un o'r prif ffactorau sy'n achosi problemau recriwtio a chadw staff. I roi sylw i'r mater hwn, ym mis Mehefin 2016, cyflwynodd y gwasanaeth achos busnes taliadau er mwyn recriwtio a chadw'r gweithwyr hyn i Lywodraeth Cymru. Mae'r achos busnes yn gofyn am godiad cyflog o £2,600 y flwyddyn am gyfnod o bum mlynedd oherwydd yr anawsterau'n recriwtio a chadw staff yn y meysydd hyn. Mae'r papur yn nodi fod yna 41 o swyddi peirianyddion trydanol a mecanyddol, gyda phedair ohonynt yn wag. Mae'r swyddi gwag hyn wedi cael eu hysbysebu bedair gwaith yn y ddwy flynedd diwethaf. Ond bu recriwtio i'r crefftau hyn yn broblem ers llawer hirach, sy'n golygu: pwysau ychwanegol ar y gweithlu presennol i ddarparu gwasanaeth hanfodol, pwysau ar oramser, cyllidebau contractwyr, a morâl isel ymysg y staff.

60 Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen brentisiaeth, sydd yn ei thrydedd flwyddyn, ar gyfer y crefftau hyn. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym ei bod yn anodd cadw staff ar ôl iddynt gymhwyso oherwydd y gall y prentisiaid, ar ôl cymhwyso, gael swyddi sy'n talu'n well y tu allan i'r Bwrdd Iechyd. Ymysg y pryderon eraill gyda'r gweithlu y mae ymgeiswyr o ansawdd gwael am swyddi gwag ac ymddeoliad staff yn y ddwy flynedd nesaf.

61 Yn yr hirdymor, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bydd angen edrych ar ei strwythur bandio, cymysgedd sgiliau a datblygiad gyrfa oherwydd hyd yn oed gyda chynnydd o £2,600 nid yw'r cyflog yn gystadleuol o'i gymharu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae gwaith wedi dechrau i fapio strwythurau timau gwahanol ond mae'n ddyddiau cynnar.

62 Mae sicrhau bod pob aelod o staff yn cael Gwerthusiad Personol ac Adolygiad o Ddatblygiad (PADR) blynyddol yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth. Dywedwyd wrthym, adeg yr adolygiad hwn, mai dim ond hanner y staff ystadau oedd yn cael PADR

blynyddol. I fynd i’r afael â’r mater hwn, ‘canran y staff sydd â PADR’ yw un o’r DPAion sy’n ffurfio rhan o’r dangosfwrdd o berfformiad yr ystadau a’r cyfleusterau.

# Atodiad 1

## Perfformiad dangosfwrdd ystadau GIG Cymru

Mae'r siartiau canlynol yn seiliedig ar ffurflenni data ystadau blynyddol a gyflwynwyd gan gyrff iechyd yng Nghymru i'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS). Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y system hon yn 2002 ac fe'i rheolir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfleusterau.

Mae'r wybodaeth EFPMS yn canolbwyntio ar gyflwr a pherfformiad yr ystâd iechyd.

Mae'r siartiau yn cwmpasu'r cyfnod o saith mlynedd, 2008-09 i 2014-15, ac yn rhoi sylw i bump o'r chwe dangosydd perfformiad cenedlaethol. Nid yw'r chweched, perfformiad ynni, yn cael ei gynnwys oherwydd ei fod tu allan i gwmpas ein gwaith.


Mae pob siart yn dangos y:

- perfformiad ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro;
- ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan; a
- tharged Llywodraeth Cymru, lle bo hynny'n berthnasol.

Mae mwy o wybodaeth am EFPMS i'w gweld yn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Cyfleusterau.

Arddangosyn 5: perfformiad yn erbyn targed GIG Cymru o ran cyflwr ffisegol yr ystâd, 2008-2015


Graff yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi methu â chyrraedd y targed cyflwr ffisegol rhwng 2008 a 2015, a'i fod yn 2013-14 wedi syrthio islaw'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru.




Ffynhonnell yr arddangosyn: GIG Cymru, System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

Arddangosyn 6: perfformiad yn erbyn targed GIG Cymru ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau diogelwch a statudol, 2008-2015


Graff yn dangos bod y Bwrdd Iechyd, rhwng 2008 a 2015, wedi methu â chyrraedd y targed cydymffurfio â rheoliadau diogelwch a statudol yn gyson, ac eithrio am gyfnod byr yn 2012-13.
Ar ôl syrthio islaw'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan, dechreuodd y perfformiad wella yn 2014-15.




Ffynhonnell yr arddangosyn: GIG Cymru, System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

Arddangosyn 7: perfformiad yn erbyn targed GIG Cymru ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau diogelwch tân, 2008-2015


Graff yn dangos bod y Bwrdd Iechyd, rhwng 2008-09 a 2012-13, wedi cyrraedd y targed cydymffurfio â rheoliadau diogelwch tân. Fodd bynnag, yn 2013-14 cwympodd y perfformiad o dan y ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru, ond ei fod wedi gwella ers hynny i ychydig dros y ffigur cyfartalog.




Ffynhonnell yr arddangosyn: GIG Cymru, System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

Arddangosyn 8: perfformiad yn erbyn targed GIG Cymru ynglŷn ag addasrwydd gweithredol yr ystâd, 2008-2015


Graff yn dangos bod y Bwrdd Iechyd, rhwng 2008 a 2015, wedi methu â chyrraedd y targed addasrwydd gweithredol, ac yn 2011-12, ei fod wedi syrthio islaw'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan.




Ffynhonnell yr arddangosyn: GIG Cymru, System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

Arddangosyn 9: perfformiad yn erbyn targed GIG Cymru o ran defnyddio gofod yn yr ystâd, 2008-2015

Graff yn dangos bod perfformiad y Bwrdd Iechyd, rhwng 2008 a 2015, o ran defnyddio gofod wedi codi a gostwng, cyrhaeddwyd y targed ddiwethaf yn 2011-12 ac ers hynny bu islaw'r targed a'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan.




Ffynhonnell yr arddangosyn: GIG Cymru, System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau

# Atodiad 2


## System TG yr ystad – dadansoddiadau enghreifftiol

Mae'r adran hon yn cynnwys cyfres o ddadansoddiadau yn seiliedig ar y data enghreifftiol a lwythwyd i lawr oddi ar system TG Backtraq yr adran. Ar gyfer Ysbyty Athrofaol Cymru, yn y cyfnod 2015-16, yr oedd y sampl.

Mae'r dangosyddion hyn yn seiliedig ar waith a wnaeth y Comisiwn Archwilio ar gynnal a chadw adeiladau, a dangosant ffyrdd nodweddiadol o ddadansoddi data er mwyn darparu gwybodaeth reoli ystyrlon am y gwasanaeth atgyweiriadau.

### Arddangosyn 10: nifer yr atgyweiriadau a gwblhawyd yn 2015-16, wedi'u rhannu fesul crefft


Graff yn dangos mai peirianwyr mecanyddol a thrydanol, seiri a chynorthwywyr cynnal a chadw wnaeth y rhan fwyaf o'r atgyweiriadau yn 2015-16.




Ffynhonnell yr arddangosyn: data 2015-16 oddi ar system TG Backtraq y Bwrdd Iechyd a dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

Arddangosyn 11: 20 o’r prif dasgau atgyweirio ymatebol yn 2015-16, wedi’u rhannu yn ôl math o atgyweiriadau


Graff yn dangos yr 20 o’r prif dasgau diffygion a arweiniodd at atgyweirio ymatebol yn ystod 2015-16.




Ffynhonnell yr arddangosyn: data 2015-16 oddi ar system TG Backtraq y Bwrdd Iechyd a dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

Arddangosyn 12: cost yr 20 o'r prif dasgau atgyweirio a gwblhawyd yn 2015-16, wedi'u rhannu yn ôl math o atgyweiriadau.


Graff yn dangos cost yr 20 o'r prif dasg atgyweirio yn 2015-16.




Ffynhonnell yr arddangosyn: data 2015-16 oddi ar system TG Backtraq y Bwrdd Iechyd a dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

Arddangosyn 13: nifer yr atgyweiriadau ymatebol a’r atgyweiriadau wedi’u trefnu ym mhob lleoliad

Graff yn dangos nifer yr atgyweiriadau ymatebol a’r atgyweiriadau wedi’u trefnu ar gyfer sampl o leoliadau yn yr Ysbyty Athrofaol.





Ffynhonnell yr arddangosyn: data 2015-16 oddi ar system TG Backtraq y Bwrdd Iechyd a dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

At ddibenion enghreifftiol, mae’r Arddangosyn yn dangos ystod sampl o leoliadau o’r Ysbyty Athrofaol.

Arddangosyn 14: cost atgyweiriadau ymatebol ac atgyweiriadau wedi'u trefnu fesul lleoliad

Graff yn dangos cost atgyweiriadau ymatebol ac atgyweiriadau wedi'u trefnu ar gyfer sampl o leoliadau yn yr Ysbyty Athrofaol.




Ffynhonnell yr arddangosyn: data 2015-16 oddi ar system TG Backtraq y Bwrdd Iechyd a dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

At ddibenion enghreifftiol, mae'r Arddangosyn yn dangos ystod sampl o leoliadau o'r Ysbyty Athrofaol.

# Appendix 3

## Ymateb y rheolwyr

Dengys y tabl isod ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion.

| Cyf | Argymhelliad | Budd/canlyniad arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/na) | Wedi'i dderbyn (ydy/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R1 | Sicrhau bod y gwasanaeth ystadau yn cael ei gynrychioli ar lefel y bwrdd, rhoi blaenoriaeth i recriwtio aelod bwrdd annibynnol ar gyfer yr ystadau. | Cynrychiolaeth ar gyfer y gwasanaeth ystadau ar lefel y Bwrdd. | Ydy | Ydy | Cyfarwyddwr Gweithredol i fwrw ymlaen i recriwtio aelod bwrdd annibynnol. | I'w drafod | AH |
| R2 | Creu cofnod canolog o broblemau sy'n gysylltiedig â'r ystâd a'r camau gweithredu o gyfarfodydd Bwrdd Clinigol. | Gwell dull o olrhain a rheoli problemau gyda'r ystâd a godwyd mewn Byrddau Clinigol. | Na | Na | Mae Backtraq eisoes yn darparu offeryn ar draws y BIP ar gyfer casglu pryderon ynglŷn â'r ystâd a'r camau gweithredu sy'n ofynnol ac yn eu blaenoriaethu mewn un gronfa ddata | Amh | Amh |

| Cyf | Argymhelliad | Budd/canlyniad arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/na) | Wedi'i dderbyn (ydy/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ganolog. Hwn wedyn yw'r offer y mae'r tîm yn ei ddefnyddio gan sicrhau blaenoriaeth ac y ceir yr amseroedd gorau. Bydd hyn yn gwella dan ein Rhaglen Foderneiddio. | | |
| R3 | Llunio Strategaeth Rheoli Ystadau gyda manylion costau llawn. | Gwell trefn rheoli a chynllunio strategol ar gyfer y gwasanaeth ystadau | Ydy | Ydy | "Diwrnod Strategaeth Ystadau" eisoes yn y dyddiadur ar gyfer Ebrill 2017. Gweithredu i lunio dogfen strategaeth sy'n cynnwys cerrig milltir a thargedau. Cymhwysir costau lle bo'n berthnasol. Cytuno ar y strategaeth yng Nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau. | Awst 2017 | LW |
| R4 | Datblygu cyllideb ystadau ar sail sero sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer costau refeniw sy'n debygol o godi o newidiadau yn ystâd y Bwrdd Iechyd, megis adeiladau newydd. | Rheoli cyllideb gynaliadwy ar gyfer yr ystâd. | Na | Ydy | Mae'r adran Ystadau yn ysgogi newidiadau graddfa fawr er mwyn gwella ac mae angen i'r tîm gyrraedd nodau tymor byr a chanolig i weld pa gostau o'r gwaelod i fyny sydd | Adolygiad o'r Gyllideb 2018/19<br><br>Mawrth 2018 | GW/LW/FB/NM |

| Cyf | Argymhelliad | Budd/canlyniad arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/na) | Wedi'i dderbyn (ydy/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | eu hangen. Mae angen i'r amseru a data aeddfed gael eu nodi fel blaenoriaeth yn gyntaf. Fodd bynnag, bydd y Strategaeth yn cwmpasu'r angen hwn gyda'r Cynllun Gwella Strategaeth Ystadau. | | |
| R5 | Cyflwyno system i archwilio canran o'r gwaith atgyweirio bob mis. | Tasgau cynnal a chadw ac atgyweirio o well ansawdd ac, felly, gwell gwerth am arian. | Ydy | Ydy | Wrthi'n cynnal rhaglen Moderneiddio Ystadau lawn. Mae hon yn rhoi sylw i lawer o'r sylwadau a wnaed yn yr adroddiad. Bydd archwiliadau goruchwylwyr yn cael eu cynnwys yn eu proffiliau swyddi newydd pan gânt eu moderneiddio er mwyn sicrhau ein bod | Rhag 2017 | LW |

| Cyf | Argymhelliad | Budd/canlyniad arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/na) | Wedi'i dderbyn (ydy/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ni a'r adran yn "Barod at y Dyfodol". | | |
| R6 | Cryfhau'r drefn rheoli perfformiad drwy:<br>• ymestyn y dangosfwrdd perfformiad newydd i gynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAion) ar gyfer y gwasanaethau eraill y mae'r Bwrdd Gwasanaethau yn gyfrifol amdanynt; a<br>• defnyddio mwy ar y data sy'n cael ei gipio drwy'r system atgyweirio a chynnal a chadw Backtraq. | Gwell dealltwriaeth o berfformiad y gwasanaeth ystadau a defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i ganfod gwendidau yn y gwasanaeth a'i gryfhau. | Ydy | Ydy | Mae'r DPAion yn esblygu i gyd-fynd â'r ffocws yn y tymor byr a'r tymor hir. Hefyd, erbyn hyn mae gan yr elfen fasnachol becynnau DPAion un-pwrpas a thrylwyr. Mae cydymffurfiaeth wrthi'n adolygu'r feddalwedd er mwyn rheoli DPAion yn effeithiol. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu gyda'r sylwadau hyn mewn cof a'u haddasu'n briodol. | Ebrill 2017 | LW/PC/TW |
| R7 | Sicrhau bod gwaith atgyweirio'n cael ei flaenoriaethu'n gywir:<br>• cynnal hyfforddiant gloywi ar gyfer Backtraq i staff y ddesg gymorth; ac<br>• adolygu'r cwestiynau ar sgriptiau'r staff sy'n delio â galwadau | Defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol ar gyfer atgyweiriadau. | Na | Ydy | Dan ein rhaglen foderneiddio rydym yn rhagweld y caiff ein systemau meddalwedd ystadau eu hadolygu a'u newid. Bydd yr holl staff, felly, yn cael hyfforddiant llawn i sicrhau'r defnydd | Rhag 2017 | JN/LW |

| Cyf | Argymhelliad | Budd/canlyniad arfaethedig | Blaenoriaeth uchel (ydy/na) | Wedi'i dderbyn (ydy/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gorau posibl er mwyn effeithlonrwydd a gwelliannau. Mae adolygu'r ddesg gymorth yn rhan o'r adolygiad hwn o'r system a bydd timau yn ystyried ei heffeithiolrwydd. | | |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru